



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion
Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol)
(Cymru) 2020

Chwefror 2021

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad:

LIC4073 – Cyflwynwyd y rheoliadau:

- i gynyddu hyder y cyhoedd yn nhryloywder y broses gymeradwyo ar gyfer darpar rieni maeth a mabwysiadwyr,
- i gyflwyno elfen annibynnol i'r broses adolygu.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 7 Medi 2020 a daeth i ben ar 2 Tachwedd 2020.

Cafwyd 14 ymateb gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â diddordeb.

Camau i'w Cymryd

Er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Plant sy'n Derbyn Gofal
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: PlantSynDerbynGofal@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cynnwys

Adran 1

1.1 Cyflwyniad

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Adran 2

2.2 Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law

2.2 Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf

Atodiadau

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Adran 1

Cyflwyniad

Cyflwynwyd Adolygiadau Annibynnol o Benderfyniadau ynghylch mabwysiadu am y tro cyntaf yn 2006, ar ôl i Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ddod i rym. Yn 2010, fe'u hymestynnwyd i gynnwys maethu hefyd. Rheolir y broses adolygu bresennol gan Reoliadau Adolygu Penderfyniadau Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ar ôl cael cais am adolygiad, ffurfio panel a nodi aelodaeth a swyddogaethau'r panel adolygu, a'r amserlen fydd yn cael ei dilyn.

Sefydlwyd yr IRM yn 2010 i reoli'r broses lle gall darpar fabwysiadwyr neu ddarpar fabwysiadwyr cymeradwy, a darpar ofalwyr maeth neu ofalwyr maeth presennol, ofyn am adolygiad o 'ddyfarniad o gymhwyster' a wnaed naill ai gan eu darparwr gwasanaethau mabwysiadu neu faethu, boed yn asiantaeth annibynnol neu'n awdurdod lleol.

Mae gan yr IRM dair swyddogaeth mewn perthynas â **mabwysiadu**:

- ystyried argymhelliad a wnaed o dan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 nad yw'r ceisydd yn addas i fabwysiadu plentyn;
- ystyried argymhelliad a wnaed o dan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 nad yw'r ceisydd yn addas i fabwysiadu plentyn bellach;
- ystyried argymhelliad a wnaed o dan Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005.

Mae gan yr IRM dair swyddogaeth mewn perthynas â **maethu**:

- adolygu cynnig o dan Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 (Rheoliadau 2018) i beidio â chymeradwyo ceisydd fel un sy'n addas i weithredu fel rhiant maeth
- adolygu cynnig o dan Reoliadau 2018 i ddiwygio telerau cymeradwyo rhiant maeth presennol
- adolygu cynnig o dan Reoliadau 2018 nad yw'r rhiant maeth yn addas i weithredu fel rhiant maeth bellach.

Gall yr IRM hefyd ystyried **ceisiadau am ddatgeliadau** mabwysiadu a wnaed o dan Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005.

Gall dyfarniad o gymhwyster mewn perthynas â datgelu gynnwys:

- penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â chais am ddatgelu gwybodaeth warchoddedig, am ba reswm bynnag;
- penderfyniad i beidio â datgelu gwybodaeth warchoddedig i'r ceisydd, er bod y person dan sylw wedi cytuno i'w datgelu;
- penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth lle bo'r unigolyn mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef wedi mynegi nad yw am i'r wybodaeth gael ei datgelu (y ceisydd yw testun yr wybodaeth yn yr achos hwn).

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

Cyflwynwyd Adolygiadau Annibynnol o Benderfyniadau am y rhesymau canlynol:

- i gynyddu hyder y cyhoedd yn nhryloywder y broses gymeradwyo ar gyfer darpar rieni maeth a mabwysiadwyr,
- i gyflwyno elfen annibynnol i'r broses adolygu, ac
- i annog mwy o bobl i ystyried maethu a mabwysiadu.

Gofynnwyd am farn ar ddyfodol adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau a'r Mekanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) fel rhan o ddau ymgynghoriad, gan gynnwys:

- Ymgynghoriad ar ddrafft Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019, a gynhaliwyd rhwng 24 Mai ac 16 Awst 2018; ac
- Ymgynghoriad ar ddrafft Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019, a gynhaliwyd rhwng 4 Medi 2018 a 27 Tachwedd 2018.

Roedd canfyddiadau'r ddau ymgynghoriad yn debyg iawn ac roedd rhywfaint o gefnogaeth i edrych ar brosesau amgen i gymryd lle'r swyddogaeth IRM.

Teimlwyd ei fod yn wasanaeth drud a biwrocraidaidd i'w redeg mewn perthynas â nifer cyfyngedig y ceisiadau a geir a'r adolygiadau a gynhelir bob blwyddyn. Mae llawer o faterion yn cael sylw yn gynharach yn y broses asesu/gwneud penderfyniad ac mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio gweithdrefnau cwyno darparwyr gwasanaethau maethu neu asiantaethau mabwysiadu os oes problemau'n codi, ac mae hyn wedi cyfrannu at nifer is y ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r IRM.

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Roedd yr ymgynghoriad hwn, a redodd o 7 Medi i 2 Tachwedd 2020, yn ceisio safbwyntiau ar Reoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymidiadau Amrywiol) (Cymru) 2020.

Byddai'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010. Byddai hyn yn golygu y byddai'r hawl i adolygiad annibynnol yn cael ei dileu a byddai angen i ddarpar rieni maeth neu fabwysiadwyr sy'n dymuno herio dyfarniadau o gymhwyster (gan gynnwys ceisiadau am ddatgeliad mabwysiadu) ddibynnu ar weithdrefnau cwyno'r darparwr maeth neu'r asiantaeth fabwysiadu i wneud hyn. Byddai Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymidiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yn gwneud newidiadau i'r Rheoliadau maethu a mabwysiadu i sicrhau y gellid gwrando ar gwynion o'r fath, ac i gyflwyno elfen annibynnol i'r broses gwyno.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau mabwysiadu a maethu gynnal gweithdrefnau cwyno o dan y rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

Ar hyn o bryd, nid oes yr un o'r rheoliadau hyn yn mynnu bod darparwyr gwasanaeth yn cynnwys unrhyw elfen o annibyniaeth yn eu gweithdrefnau cwyno (er ein bod yn ymwybodol bod llawer o ddarparwyr gwasanaethau eisoes yn gwneud hynny). Nid yw'r darpariaethau presennol yn caniatáu i ddarpar riant maeth y gwrthodwyd ei gais wneud cwyn i'r darparwyr gwasanaethau maethu chwaith.

Drwy ddisodli'r IRM â'r gallu i gwyno wrth y darparwr gwasanaeth, byddai Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yn galluogi'r gweithdrefnau cwyno i weithredu fel dewis amgen i'r IRM presennol. Byddai'r Rheoliadau hyn yn:

- mynnu bod darparwr gwasanaethau'n sicrhau bod ei weithdrefn gwyno'n cynnwys darpariaeth i ystyried dyfarniadau o gymhwyster;
- pennu bod y weithdrefn gwyno yn mynnu bod person annibynnol yn cael ei benodi i weithio gyda'r darparwr a'r achwynydd i ymchwilio i'r dyfarniad o gymhwyster a'i adolygu;
- ei gwneud yn ofynnol bod gan yr ymchwilydd annibynnol wybodaeth a phrofiad perthnasol i ystyried y gŵyn benodedig;
- caniatáu i ddarpar riant maeth y gwrthodwyd ei gais wneud cwyn benodol i'r darparwr gwasanaethau maethu;
- mynnu bod y weithdrefn gwyno yn cynnwys darpariaeth sy'n nodi bod rhaid i berson sy'n gwneud cwyn benodedig gael gwybod am hynt yr ymchwiliad i'w gŵyn a bod rhaid darparu ymateb ysgrifenedig i'r person, sy'n crynhoi natur a sylwedd y gŵyn, y casgliadau ac unrhyw gamau i'w cymryd o ganlyniad i'r ymchwiliad.

Cafwyd **14** ymateb i'r ymgynghoriad. Mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn gyfartal o ran y sylwadau a gafwyd. Mae rhestr o'r ymatebwyr ar gael yn Atodiad A.

Mae crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru, ar gael yn Adran 2.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r ymgynghoriad.

Adran 2

2.1 Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru

Crynodeb o'r ymatebion

Cwestiwn 1: Pa heriau ydych chi'n eu gweld wrth gyflwyno swyddogaeth adolygu ar gyfer adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau dan weithdrefnau cwyno'r asiantaethau (gan gynnwys ceisiadau am ddatgeliadau mabwysiadu)?

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig cadw annibyniaeth a thryloywder y broses IRM ac **nad yw'r** newidiadau Rheoleiddiol arfaethedig yn darparu'r agweddau hollbwysig hyn. Roedd yr ymatebion yn pwysleisio ei bod yn hollbwysig sefydlu lefel annibyniaeth yr ymchwilydd annibynnol, a gwneud hynny'n glir i'r rhai sy'n ceisio adolygiad o ddyfarniad o gymhwyster. Awgrymwyd hefyd y gallai cael un person yn adolygu'r penderfyniad, yn hytrach na phanel, achosi i geiswyr golli ffydd bod eu cwyn yn cael ei chymryd o ddifrif.

Teimlwyd, drwy'r swyddogaeth IRM bresennol, bod yr aelodau o'r panel yn chwarae rôl werthfawr o ran deall cymhlethdodau'r sectorau a'u bod yn gallu arfer barn broffesiynol fel corff cyfunol.

Pwysleisiwyd na fyddai gan rai asiantaethau llai y capasiti o ran amser neu adnoddau i ddelio ag adolygiadau o ddyfarniad o gymhwyster yn fewnol o bosibl.

Roedd yr adborth yn mynegi bod y Rheoliadau, yn eu fformat presennol, yn brin o fanylion am y lefel o awdurdod a fydd gan y broses gwyno ar y dyfarniad o gymhwyster. Awgrymwyd bod angen nodi hyn yn glir yn y Rheoliadau er mwyn ei gwneud yn bosibl rheoli disgwyliadau ceiswyr yn effeithiol. Teimlwyd hefyd y byddai angen gwahaniaethu'n glir rhwng cwynion mewn cysylltiad â darpariaeth asiantaeth o'i gwasanaethau ac â cheisiadau i adolygu dyfarniadau o gymhwyster, oherwydd ni ellir ystyried bod yr adolygiadau hyn yr un fath â chwyn ac felly byddai angen proses dryloyw ar wahân.

Roedd consensws cyffredinol bod y Rheoliadau'n brin o eglurder o ran sut dylid cynnal yr ymchwiliadau hyn. Mae hyn yn debygol o arwain at anghysondebau rhwng awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol/gwirfoddol ledled Cymru. Teimlwyd bod agwedd bwysig ar goll, sef y gydnabyddiaeth bod angen i geiswyr wybod eu hawliau o ran apelio dyfarniad o gymhwyster, y broses a fydd yn dilyn, a pha mor hir y bydd pob cam o'r broses hon yn ei gymryd.

Roedd yr adborth yn awgrymu bod angen i'r Rheoliadau gynnwys darpariaeth sy'n sicrhau bod yr ymchwilydd annibynnol yn gallu cael cyngor meddygol, os yw'n gofyn amdano, yn ystod ei ymchwiliad. Nodwyd hefyd bod angen cydnabod y gallai fod angen arbenigedd pellach ar yr ymchwilydd i gefnogi'r ymchwiliad, a fyddai'n arwain at gostau ychwanegol. Os na fyddai ceisiadau i'r IRM yn gyffredin, codwyd pryder y gallai asiantaeth wedyn gymryd cryn amser i benodi ymchwilydd annibynnol. Mewn rhai amgylchiadau, teimlwyd y gallai'r oedi hwn effeithio ar hawliau plant, er enghraifft pe bai person wedi gwneud cais i fod yn ofalwr teulu a ffrindiau a bod penderfyniad i beidio â chymeradwyo yn cael ei atgyfeirio i'r IRM.

Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at ba mor bwysig ydy hi fod y Rheoliadau'n ystyried bod yn rhaid i'r broses hon hefyd fod yn addas i'r diben ar gyfer achosion mynediad at wybodaeth ôl-gychwyn, os a phan fyddant yn dechrau cael eu cyflwyno. Tynnwyd sylw at y posibilrwydd na fyddai'r ceisiadau hyn yn gyffredin ac y gallai hyn arwain at yr asiantaeth/darparwr yn cymryd cryn amser i benodi ymchwilydd annibynnol sy'n meddu ar y sgiliau angenrheidiol i gynnal adolygiadau o'r fath.

Ar gyfer unrhyw heriau, nodwch sut y gellid eu goresgyn?

Awgrymwyd y gellid creu cronfa ddata ganolog o weithwyr proffesiynol annibynnol (cyfraith, iechyd, gofal cymdeithasol), ymarferwyr, mabwysiadwyr, gofawyr sy'n berthnasau, gofawyr maeth, cyn aelodau o banel IRM Cymru, ac ati, a fyddai'n fodlon cymryd rhan yn y broses newydd. Gallai hyn gynnig rhywfaint o gysondeb. Byddai hyn yn sicrhau y gellid cael gafael yn rhwydd ar bobl wybodus â chymwysterau addas sy'n meddu ar lefel uchel o wybodaeth ac arbenigedd ym maes maethu a mabwysiadu, er mwyn cefnogi'r swyddogaeth hon.

Cynigiwyd y dylai'r ymchwilydd annibynnol, ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, gyfeirio'n ôl at banel yr asiantaeth maethu/mabwysiadu a Phenderfynwr yr Asiantaeth am argymhelliad a phenderfyniad o'r newydd ym mhob achos. Teimlwyd y bydd hyn yn sicrhau mai Penderfynwr yr Asiantaeth sy'n gwneud y penderfyniad terfynol (fel y mae yn awr drwy'r IRM) ac yn golygu nad yw penderfyniad yr ymchwilydd annibynnol yn 'apêl' yn erbyn y penderfyniad. Roedd yr adborth yn awgrymu, os nad yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnwys, nid oes pwrpas i'r Rheoliadau oherwydd nad ydynt yn darparu system ar wahân ar gyfer dyfarniadau o gymhwyster a gweithdrefn gwyno arferol. Byddai hyn hefyd yn rhoi hyder i geiswyr bod y cais am adolygiad yn cael ei ystyried yn annibynnol.

Awgrymwyd y gellid cyflwyno cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth, er cymorth i'r sector maethu, a fyddai'n gwneud penderfyniadau terfynol ar addasrwydd parhaus gofawr maeth i aros ar gofrestr genedlaethol neu i gael ei ychwanegu ati. Byddai pob dyfarniad o gymhwyster ynghylch addasrwydd unigolyn i barhau i gael ei gymeradwyo yn cael ei atgyfeirio at y corff cofrestru gan ddarparwyr gwasanaethau maethu, a'r corff hwnnw fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol.

Teimlwyd y gellid lleihau'r angen i ddefnyddio proses gwyno drwy fynd i'r afael â phroblemau yn gynharach yn y broses o wneud penderfyniadau, er mwyn atal yr angen am ddyfarniad o gymhwyster. Byddai modd nodi problemau yn gynnar drwy gael gafael ar gyngor a chymorth cyfryngu i weithio gydag asiantaethau, gofawyr maeth (gan gynnwys darpar ofalwyr maeth) a darpar fabwysiadwyr. Mae'r Rhwydwaith Maethu wrthi'n treialu hyn yng Nghymru drwy'r rhaglen Cymunedau Maethu, a gellid ystyried canlyniadau'r treial hwn wrth gefnogi'r broses hon yn y dyfodol.

Roedd consensws bod angen canllawiau ymarfer da i gyd-fynd â'r Rheoliadau, a fydd yn ei gwneud hi'n glir hyd a lled posibl casgliad ac argymhellion gweithdrefn gwyno ar y cyd yr ymchwilydd annibynnol/darparwr. Hefyd, mae angen cyfarwyddyd clir ar y broses i'w dilyn, fel gweithdrefn Cymru gyfan sy'n cynnwys amserlenni ac eglurder bod y broses adolygu newydd yn gyfan gwbl ar wahân i weithdrefn gwyno arferol asiantaethau, a bod elfen annibynnol wedi'i hychwanegu yng Ngham 2. Dylai'r broses newydd hon gynnwys elfen annibynnol, ar ffurf ymchwilydd annibynnol, o'r cychwyn cyntaf. Mae angen i'r broses fod yn hygyrch i bawb, yn weladwy, a dylid digon o gyhoeddusrwydd iddi. Dylai fod wedi ymrwymo i wella'r gwasanaeth yn parhaus er budd pob defnyddiwr.

Awgrymwyd y byddai costau defnyddio gweithdrefnau cwyno asiantaethau yn broblem a dylid ystyried trosglwyddo adnoddau i gyllidebau awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r broses, a chomisiynu ymarferwyr a gwasanaethau annibynnol addas i ymchwilio'n effeithiol. Cynigiwyd, pe bai angen, gallai asiantaethau ddatblygu cytundeb prynu yn y fan (spot purchase) gyda sefydliad a fyddai'n gallu cynnal ymchwiliadau adolygu.

1. Os ydych chi'n ddarparwr gwasanaeth maethu neu fabwysiadu, sut ydych chi'n rhagweld y bydd elfen ymchwilio annibynnol y broses yn gweithio yn eich sefydliad?

Awgrymwyd, i sicrhau digon o annibyniaeth yn y broses, y byddai angen cael swyddog digon cymwys ond sy'n annibynnol ar yr asiantaeth maethu neu fabwysiadu i gymryd rhan mewn ymchwiliadau; dewis arall fyddai sicrhau'r ddarpariaeth hon fel gwasanaeth wedi'i gomisiynu.

Y consensws cyffredinol oedd y byddai angen sgiliau, profiad a chymwysterau priodol ar yr ymchwilydd annibynnol i reoli'r ymchwiliad. Fodd bynnag, teimlwyd y gallai hyn arwain at rai heriau oherwydd efallai nad oes digon o bobl yng Nghymru yn meddu ar y profiad a'r wybodaeth berthnasol i gynnal ymchwiliad mor gymhleth. Awgrymwyd y dylid ystyried system lle caiff yr un ffi ei chynnig i bob ymchwilydd.

Cyflwynwyd opsiwn a oedd yn cynnwys annog asiantaethau i ddatblygu cyd-drefniadau ar gyfer darparu ymchwilydd annibynnol, neu i ddefnyddio'r ymchwilydd annibynnol maent eisoes yn eu defnyddio ar gyfer yr elfen annibynnol o'u gweithdrefn gwyno arferol. Os oes angen cyngor a gwybodaeth gyfoes am bolisi ac ymarfer penodol ar ymchwilydd annibynnol, maent yn gallu cael gafael ar ymgynghorydd annibynnol, ond byddai costau ychwanegol yn gysylltiedig â hyn.

2. Ydych chi'n meddwl y bydd y newid hwn yn fwy costeffeithiol ac yn llai biwrocraidd na'r swyddogaeth IRM bresennol? Rhowch resymau.

Cafwyd ymateb cymysg. Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno y gallai'r broses newydd leihau biwrocraidiaeth, fod yn fwy costeffeithlon ac yn helpu i gysoni prosesau â'r rhai sy'n bodoli eisoes er mwyn lleihau'r cymhlethdod i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd eraill yn anghytuno ac yn cadarnhau, ar ôl edrych ar fecaneg gweithredu'r swyddogaeth drwy weithdrefnau cwyno'r asiantaethau, byddai'r opsiwn yn cynyddu costau ac yn gwneud pethau'n fwy cymhleth, ac yn llai cyson.

Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn derbyn bod yr IRM yn system gostus a biwrocraidd ar gyfer lefel y dyfarniadau o gymhwyster sy'n cael eu cyflwyno iddo.

Awgrymwyd y gallai cyd-drefniant rhwng awdurdodau lleol yn y rhanbarth, neu rhwng asiantaethau, leihau costau'n sylweddol. Fodd bynnag, codwyd cwestiynau ynghylch sut byddai hynny'n gweithio'n ymarferol. Hefyd, codwyd cwestiynau ynghylch sut gallai'r cytundeb hwn weithio i asiantaethau maethu annibynnol oherwydd mae angen ystyried sensitifrwydd masnachol, amser a chost; ni fyddai rhai asiantaethau llai yn gallu cefnogi'r swyddogaeth hon. Teimlwyd felly na fyddai'r trefniant hwn yn bosibl i'r sector maethu annibynnol.

Awgrymwyd hefyd, i leihau'r gost a hybu cysondeb ar draws awdurdodau lleol, gellid cael

cytundeb lefel gwasanaeth rhanbarthol ag ymchwilydd annibynnol a fyddai'n ymchwilio yn ôl yr angen ar draws y rhanbarth gyda'r adran cwynion corfforaethol berthnasol.

Roedd consensws y byddai cael yr ymchwilydd annibynnol i gyfeirio'n ôl at y Panel/Penderfynwr yr Asiantaeth yn llai biwrocraidd oherwydd byddai'r unigolion hyn eisoes yn gyfarwydd â'r achos, a byddai hyn yn adlewyrchu swyddogaeth yr IRM.

3. A fydd y weithdrefn newydd hon yn cynnig cysondeb ar draws darparwyr? Os na fydd, beth fyddai modd ei wneud i sicrhau cysondeb?

Yn gyffredinol, teimlwyd na fyddai'r weithdrefn newydd yn cynnig dull gweithredu cyson ar draws Cymru ac y byddai'n arwain at lawer o wahanol brosesau'n cael eu mabwysiadu gan asiantaethau ar draws y wlad. Dywedwyd y byddai polisi a phrotocol Cymru gyfan i gefnogi'r broses yn cynnig rhywfaint o gysondeb o ran y dull gweithredu. Byddai cyflwyno naill ai canllawiau statudol neu ganllaw arferion da i gyd-fynd â'r newidiadau, gan gynnwys eglurder o ran beth sydd yn gŵyn, yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at sicrhau cysondeb. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai gwahanol asiantaethau'n gallu eu dehongli'n wahanol.

Teimlwyd hefyd bod angen i'r Rheoliadau adlewyrchu'r gwir annibyniaeth sydd ei hangen o ran yr ymchwilydd, fel peidio â chael ei recriwtio o dîm arall o fewn yr un asiantaeth/darparwr.

I gefnogi'r sector maethu, cynigiwyd y byddai cyflwyno cofrestr ganolog o ofalwyr maeth yng Nghymru yn sicrhau ansawdd; byddai angen safon genedlaethol yn y gweithlu gofal maeth fel lefel hyfforddiant i ennill lle ar y gofrestr, yn ogystal â hyfforddiant parhaus i aros ar y rhestr o ofalwyr maeth cymeradwy; gan felly sicrhau cysondeb ar draws darparwyr.

4. Fel defnyddiwr gwasanaeth, ydych chi'n teimlo bod y newidiadau arfaethedig yn parhau i gynnig proses dryloyw ac annibynnol i chi adolygu penderfyniadau a wneir gan baneli maethu a mabwysiadu?

Teimlwyd yn gryf nad yw'r Rheoliadau yn eu fformat presennol yn cynnig proses annibynnol i adolygu penderfyniadau. Argymhellwyd y byddai angen i'r swyddogaeth ymchwilydd annibynnol fod yn ddigon annibynnol ar yr asiantaeth/darparwr, a bod angen amlinellu hyn yn y Rheoliadau a/neu'r canllawiau cysylltiedig. Roedd pryder hefyd ynglŷn â'r lefel o wybodaeth arbenigol y byddai gan yr ymchwilydd i gefnogi'r swyddogaeth adolygu.

5. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch a fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar benderfyniadau a wneir mewn perthynas â cheisiadau am ddatgeliad mabwysiadu (Ile mae asiantaeth fabwysiadu yn cynnig bod gwybodaeth a ddiogelir o gofnodion mabwysiadu yn cael ei datgelu neu ei dal yn ôl, yn groes i farn y sawl mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef)?

Teimlwyd yn gyffredinol y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith fach iawn ar y math hwn o waith, gan nad oes unrhyw geisiadau o'r fath wedi dod i law eto. Awgrymwyd nad oes rheswm pam na fyddai modd i'r asiantaeth/darparwr dan sylw neu'r ymchwilydd annibynnol wneud asesiad cadarn o geisiadau o'r fath.

Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai nifer y ceisiadau hyn newid yn y dyfodol ac felly byddai angen canllawiau clir.

- 6. Byddem yn hoffi clywed eich barn ar yr effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?**

Cydnabuwyd y dylid hyrwyddo'r Gymraeg bob amser ac y dylai'r ymchwilydd annibynnol gynnig Cymraeg fel opsiwn ar gyfer ymchwilio a llunio casgliad ar y gŵyn benodol, yn ôl dymuniad yr achwynydd.

Roedd consensws cyffredinol na fyddai hyn yn cael effaith gadarnhaol na negyddol oherwydd bod pob asiant/darparwr yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Felly, nid oes rheswm i gredu y byddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.

O ran awdurdodau lleol, awgrymwyd y gallai fod yn fwy costeffeithiol i gael cymorth iaith Gymraeg ar gyfer y system newydd, gan fod ganddynt yr adnoddau a'u bod yn cael cyllid canolog i wneud hyn.

Amlygwyd na fyddai gwasanaethau cyfieithu yn briodol mewn amgylchiadau o'r fath o bosibl, o ganlyniad i natur y materion sy'n cael eu trafod. Felly, codwyd pryder bod recriwtio siaradwyr Cymraeg sy'n meddu ar y wybodaeth a'r arbenigedd gofynnol yn debygol o fod yn anodd i asiantaethau/darparwyr. Felly, mae risg o leihau'r ansawdd.

- 7. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol o ran: -**
- **cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
 - **peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
 - **dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
 - **peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Byddai hyn yn cael sylw drwy gynnwys datganiadau clir am ddefnyddio'r Gymraeg yn y Rheoliadau, unrhyw ganllawiau ategol a'r cyhoeddusrwydd cysylltiedig ynghylch y newidiadau rheoleiddiol.

Cadarnhaodd nifer o ymatebwyr y byddai asiantaethau/darparwyr yn dilyn eu darpariaeth iaith Gymraeg a chyfle cyfartal eu hunain; felly, eu cyfrifoldeb nhw fyddai sicrhau bod modd darparu'r gwasanaeth yn ddwyieithog a hyrwyddo hynny i sicrhau bod dinasyddion yn teimlo'n hyderus y gallant gael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg.

- 8. Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am y gofynion arfaethedig a nodir yn Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020?**

Nodwyd yr angen i gynnal annibyniaeth, tryloywder a chysondeb y broses, ac roedd pryderon cryf bod y Rheoliadau'n cael gwared ar broses gwbl annibynnol a chyson y mae'r sector yn ei gwerthfawrogi. Ailadroddwyd y bydd angen egluro lefel annibyniaeth yr ymchwilydd yn glir i geiswyr sy'n gofyn am adolygiad.

Awgrymwyd bod angen protocol cenedlaethol i gefnogi'r newidiadau er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Roedd yr adborth yn tynnu sylw at y ffaith fod gan ddarparwyr presennol yr IRM hanes blaenorol cadarn o ran hawliau plant. Dylai unrhyw ymchwilydd annibynnol ymrwymo i hawliau plant a meddu ar brofiad ohonynt. Teimlwyd y gellir rhoi sylw i'r mater hwn drwy ganllawiau.

2.2 Ymateb Llywodraeth Cymru a'r Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a hoffai ddiolch i'r holl ymatebwyr am roi o'u hamser i ddarparu'r adborth gwerthfawr a fydd yn helpu i benderfynu ar y llwybr ar gyfer adolygu dyfarniadau o gymhwyster o 1 Ebrill 2021 ymlaen.

Mae'r adborth yn amlygu'n glir y pryderon sydd gan y sectorau mabwysiadu a maethu ynglŷn ag ymgorffori'r swyddogaeth adolygu dyfarniadau o gymhwyster yng ngweithdrefnau cwyno asiantaethau.

Mae'n amlwg bod y sectorau wedi croesawu'r tryloywder, yr annibyniaeth a'r arbenigedd a gynigir drwy'r swyddogaeth IRM, sy'n cael ei chyfarwyddo drwy Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010.

Mae wedi gwneud hyn drwy ddarparu adolygiad trylwyr o'r cynnig arfaethedig a gwneud argymhelliad, gyda rhesymau, i Benderfynwr yr Asiantaeth. Mae hwn wedi bod yn ymarfer sicrhau ansawdd pwysig i geiswyr ac i Asiantaethau Mabwysiadu/Darparwyr Gwasanaethau Maethu fel ei gilydd. Mae ceiswyr wedi'i werthfawrogi hefyd oherwydd mae wedi rhoi cyfle iddynt i gael ei achos wedi'i ystyried yn annibynnol ac i dynnu sylw'r Panel Adolygu at unrhyw dystiolaeth na chafodd ei hystyried yn briodol gan yr Asiantaeth Fabwysiadu/Darparwr Gwasanaethau Maethu yn eu barn nhw.

I asiantaethau, mae wedi ategu eu cyfrifoldeb tuag at ofalwyr maeth a mabwysiadwyr i weithredu yn unol â fframwaith rheoliadau mabwysiadu a maethu. Yn ogystal â gwneud argymhelliad yn cytuno neu'n anghytuno â'r penderfyniad arfaethedig, mae'r Panel Adolygu hefyd wedi darparu adborth i'r Asiantaeth Fabwysiadu/Darparwr Gwasanaethau Maethu ar ei bolisi, ei arferion a'i weithdrefnau, ac ar unrhyw ddysgu o'r achos y mae'r adolygiad yn credu y byddai'n berthnasol iddynt ei ystyried.

Nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu nifer y gofaluwyr maeth a'r mabwysiadwyr yng Nghymru er mwyn gofalu am ein poblogaeth o blant sy'n derbyn gofal. Rydym yn annog pobl o amrywiaeth o gefndiroedd i ystyried maethu neu fabwysiadu, ac yn hybu mwy o leoliadau Cymraeg eu hiaith. Felly, mae'n hollbwysig bod uniondeb a thryloywder i'r system er mwyn annog darpar ofalwyr maeth a mabwysiadwyr, a rhoi hyder iddynt nad oes unrhyw un yn cael ei eithrio heb ystyriaeth ac adolygiad llawn.

Mae'r ymgynghoriad wedi codi nifer o feysydd sy'n peri pryder o ran cyflwyno Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020. Ymysg y materion allweddol a godwyd o ran y dull gweithredu arfaethedig mae diffyg annibyniaeth, tryloywder a chysondeb. Amlygwyd hefyd efallai na fydd yr arbedion arfaethedig mewn costau yn cael eu cyflawni ac y gallai fod yn anodd cael gafael ar y wybodaeth arbenigol sydd ei hangen i gefnogi adolygiad. Teimlwyd y byddai'r dull gweithredu arfaethedig hefyd yn faich i'r sector annibynnol o ran cost ac amser, ac felly'n arwain at ragor o anawsterau i'r asiantaethau hyn wrth sefydlu system adolygu gadarn.

Er y gellid newid y Rheoliadau i ystyried rhai o'r awgrymiadau a gafwyd drwy'r ymgynghoriad, nid yw Llywodraeth Cymru yn teimlo y byddai hyn yn lleddfu'r holl bryderon sydd wedi cael eu mynegi. Mae ein mabwysiadwyr a'n gofalwyr maeth yng Nghymru yn hynod o werthfawr ac yn chwarae rôl hollbwysig yn darparu cartref cariadus a sefydlog i rai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Gall dyfarniad o gymhwyster fod yn benderfyniad sy'n newid bywyd ac felly ein bwriad yw sicrhau bod gan unigolion yr hawl i broses sydd â'r lefel briodol o annibyniaeth a chysondeb, ac sy'n cael ei gwerthfawrogi, er mwyn adolygu'r penderfyniad a'i gwneud hi'n bosibl clywed eu lleisiau go iawn.

Gwyddwn fod yr IRM yn cael lefel gymharol isel o geisiadau ac y gallai hyn fod yn gysylltiedig ag asesiadau mwy cadarn a gwell penderfyniadau, neu weithdrefnau cwyno sy'n cael eu sefydlu'n well ac yn rhoi ffordd arall i geiswyr o leisio eu pryderon.

Mae'n bwysig ein bod yn adlewyrchu ar lwyddiant yr IRM a'r gwerth y mae'n ei gyfrannu at uniondeb y sectorau mabwysiadu a maethu. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cyflwyno system sy'n adeiladu ar lwyddiant yr IRM ac sy'n mynd ati i leihau cymhlethdod, yn cryfhau'r integreiddio ac yn gwella cysondeb yn y sectorau, gan gynnal y swyddogaethau uchel eu parch sydd wedi dangos eu gwerth dros y blynyddoedd. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid inni gofio bod angen diogelu'r broses ar gyfer y dyfodol i sicrhau ein bod yn gallu lleihau effaith unrhyw heriau yn y dyfodol.

Mewn ymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn:

- **Cadw** Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010, gyda'r nod y bydd y swyddogaeth IRM yn parhau i weithredu fel gwasanaeth ar ei ben ei hun wedi'i reoli gan endid ar wahân.
- **Peidio** â dwyn Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cwynion Penodedig) (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 i rym ar 1 Ebrill
- **Ailgaffael** y contract ar gyfer y Mecanwaith Adolygu Annibynnol, gan ychwanegu mesurau diogelu ar gyfer y dyfodol i'w alluogi i ymateb yn effeithiol i heriau ac amgylcheddau sy'n newid. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau bod gan Gymru fecanwaith adolygu ymarferol, cyson ac annibynnol ar gyfer dyfarniadau o gymhwyster o hyd.

Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol Ydy / Nac ydy		Sefydliad/Ar ran
1.	✓		Dienw
2.		✓	Foster Talk Ltd
3.		✓	Iechyd Cyhoeddus Cymru
4.		✓	Y Rhwydwaith Maethu
5.		✓	Fframwaith Maethu Cenedlaethol, Gwent
6.		✓	Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru
7.		✓	S Hall, Clapham Lloegr
8.		✓	Cyngor Sir Ynys Môn
9.		✓	Cyngor Sir Powys
10.	✓		Dienw
11.	✓		Dienw
12.		✓	Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
13.		✓	Comisiynydd Plant Cymru
14.		✓	Cyngor Sir y Fflint